

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 924 (Cy. 151)

**YR AMGYLCHEDD
HANESYDDOL, CYMRU**

Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd
Hanesyddol (Cymru) 2023
(Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-
ddeddfwriaeth) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") yn cydgrynhoi'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Y prif Ddeddfau a ddygwyd ynghyd yn yr ymarfer cydgrynhoi hwnnw yw Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49), Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4). Gwnaeth Deddf 2023 rai newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir yn y Deddfau hynny.

Mae Deddf 2023 hefyd yn ailddatgan darpariaethau a geir ar hyn o bryd mewn Deddfau eraill sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70), Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5). Mae Deddf 2023 hefyd yn ymgorffori rhai darpariaethau o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar Ddeddf 2023 i is-ddeddfwriaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o

ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 924 (Cy. 151)

**YR AMGYLCHEDD
HANESYDDOL, CYMRU**

Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd
Hanesyddol (Cymru) 2023
(Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-
ddeddfwriaeth) 2024

Gwnaed 9 Medi 2024

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 11 Medi 2024

Yn dod i rym 4 Tachwedd 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 211(3) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Tachwedd 2024.

Darpariaeth ganlyniadol

Rheoliadau Coedwigaeth (Cwmpo Coed) 1979

2. Yn Atodlen 2 i Reoliadau Coedwigaeth (Cwmpo Coed) 1979(2), ym mharagraff (4)(i) o'r Nodiadau, ar ôl "1990" mewnosoder "or under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

(1) 2023 dsc 3.

(2) O.S. 1979/791, a ddiwygiwyd gan O.S. 1987/632 ac O.S. 2002/226; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981

3. Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981(1), hepgorer “and Wales”.

Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1981

4. Yn erthygl 1(2) o Orchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1981(2), hepgorer “and Wales”.

Rheoliadau Gweithrediadau mewn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Ffurfiâu Hysbysu etc.) 1984

5. Mae Rheoliadau Gweithrediadau mewn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Ffurfiâu Hysbysu etc.) 1984(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

- (a) yn rheoliad 1(2), hepgorer “and Wales”;
- (b) yn rheoliad 4(a)(ii), hepgorer “, or on the Secretary of State” hyd at “in Wales”.

Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Eemptio) 1984

6. Yn erthygl 1(2) o Orchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Eemptio) 1984(4), hepgorer “and Wales”.

Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Ardal Datblygu Trefol Bae Caerdydd) 1989

7. Yn erthygl 2 o Orchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Ardal Datblygu Trefol Bae Caerdydd) 1989(5), yn y diffiniad o “scheduled monument”, yn lle “the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979” rhodder “section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Tai (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Rhif 2) 1990

8. Yn yr Atodlen i Reoliadau Tai (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Rhif 2) 1990(6), yn Ffurf 18, yn ail is-baragraff paragraff 2, ar ôl “1990” mewnosoder “or under section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

-
- (1) O.S. 1981/1301.
 - (2) O.S. 1981/1302, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (3) O. S. 1984/1285, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (4) O.S. 1984/1286.
 - (5) O.S. 1989/1180, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (6) O.S. 1990/1730, y mae diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Ymsuddiant Glofaol (Hysbysiadau a Hawliadau) 1991

9. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Ymsuddiant Glofaol (Hysbysiadau a Hawliadau) 1991(1), ym mharagraff 13, ar ôl “section 19(1)” mewnosoder “or section 19(1A)”.

Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993

10. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993(2), yn y diffiniad o “scheduled monument”—

- (a) ar ôl “meaning” mewnosoder “, in relation to monuments in England,”;
- (b) ar ôl “1979” mewnosoder “and in relation to monuments in Wales, has the meaning given by section 3(7) of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994

11. Mae Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994(3) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

12. Yn erthygl 1(3), hepgorer “and Wales”.

13. Yn yr Atodlen, yn Nosbarth 10, yn y pennawd a’r geiriau sy’n ei ddilyn, hepgorer o “or” hyd at “Wales”.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

14. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(4) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

15. Yn erthygl 1(2)—

- (a) yn lle’r diffiniad o “listed building” rhodder—
““listed building” has the meaning given by section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023;”;
- (b) yn lle’r diffiniad o “scheduled monument” rhodder—
““scheduled monument” has the meaning given by section 3(7) of the Historic Environment (Wales) Act 2023;”;
- (c) hepgorer y diffiniad o “site of archaeological interest”.

(1) O.S. 1991/2509.

(2) O.S. 1993/1366.

(3) O.S. 1994/1381.

(4) O.S. 1995/418, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/528 ac O.S. 2015/596; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

16. Yn erthygl 7—

- (a) hepgorer paragraff (2)(a)(iii);
- (b) ym mharagraff (2)(b), yn lle “compiled by the Secretary of State” hyd at y diwedd rhodder “maintained by the Welsh Ministers under section 76(1) of the Historic Environment (Wales) Act 2023 (duty to maintain list of buildings);”.

17. Yn Rhan 2 o Atodlen 1, yn is-baragraff (c), yn lle “section 69” hyd at “1990” rhodder “section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995

18. Yn Atodlen 5 i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995(1), hepgorer paragraff 12 a’r pennawd o’i flaen.

Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Gyfeiriedig Eraill) 1996

19. Yn rheoliad 12(3) o Reoliadau Inswleiddio rhag Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Gyfeiriedig Eraill) 1996(2), ar ôl “the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990” mewnosoder “or section 89 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 1996

20. Yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 1996(3), yn Rhan 2, paragraff 2, hepgorer y cofnod ar gyfer paragraff 12 a fewnosodir sy’n ymwneud â Rheoliadau Gweithrediadau mewn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Ffurfiâu Hysbysu etc.) 1984 a’r pennawd o’i flaen.

Rheoliadau Gwrychoedd 1997

21. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Gwrychoedd 1997(4), yn Rhan 2, paragraff 2(a), ar ôl “1979” mewnosoder “or in the schedule of monuments maintained by the Welsh Ministers under section 3(1) of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Gwaith Piblinellau Trawsgludo Nwy Cyhoeddus (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1999

22. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwaith Piblinellau Trawsgludo Nwy Cyhoeddus (Asesu Effeithiau

(1) O.S. 1995/2803, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/534; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 1996/428, y mae diwygiad iddo nad yw’n berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 1996/534.

(4) O.S. 1997/1160, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Amgylcheddol) 1999(1), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “sensitive area”, is-baragraff (g), ar ôl “1979” mewnosoder “or the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Lluoedd ar Ymweliad a Phencadlysoedd Rhyngwladol (Cymhwyso'r Gyfraith) 1999

23. Yn erthygl 11(1) o Orchymyn Lluoedd ar Ymweliad a Phencadlysoedd Rhyngwladol (Cymhwyso'r Gyfraith) 1999(2)—

- (a) yn lle “and the Planning (Hazardous Substances) Act 1990”, rhodder “, the Planning (Hazardous Substances) Act 1990 and Parts 3 to 5 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (b) yn lle “and section 31(3) of the Planning (Hazardous Substances) Act 1990” rhodder “, section 31(3) of the Planning (Hazardous Substances) Act 1990 and section 207 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999

24. Yn Atodlen 2 i Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999(3), ym mharagraff 1, yn y diffiniad o “sensitive area”, is-baragraff (f), ar ôl “1979” mewnosoder “or the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003

25. Yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003(4)—

- (a) yn y diffiniad o “conservation area”—
 - (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “and Wales”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
 - “(aa) in relation to Wales, any area designated as a conservation area under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023;”;
- (b) yn y diffiniad o “statutory list of buildings”—
 - (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “and Wales”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

(1) O. S. 1999/1672, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 1999/1736, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1281 (Cy. 43); mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 1999/2228, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) O.S. 2003/2553, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn;

“(aa) in relation to Wales, the list of buildings of special architectural or historic interest maintained under section 76(1) of the Historic Environment (Wales) Act 2023;”.

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004

26. Mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

27. Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniad o “y Ddeddf Adeiladau Rhestredig”.

28. Yn rheoliad 4—

- (a) yn lle “adran 47” hyd at “trwsio” rhodder “adran 137 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (pwerau i gaffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu)”;
- (b) ym mharagraff (b)(ii), yn lle “adran 50(3)” hyd at “a adawyd i ddadfeilio’n fwriadol” rhodder “adran 140(3) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol pan ganiatawyd i adeilad fynd i gyflwr gwael yn fwriadol)”.

29. Yn yr Atodlen—

- (a) yn Ffurf 1, ym mharagraff 4—
 - (i) yn lle “O dan adran 50” hyd at “(“Deddf Adeiladau Rhestredig”)” rhodder “O dan adran 140 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”)”;
 - (ii) yn lle “neu’r Ddeddf Adeiladau Rhestredig” rhodder “neu Ddeddf 2023”;
- (b) yn Ffurf 8, yn y Nodiadau ar gyfer defnyddio Ffurf 8—
 - (i) yn y pennawd sy’n dechrau “Darpariaethau ychwanegol mewn perthynas â gorchmynion prynu gorfodol”, yn lle “a wneir o dan adran 47 o’r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (i)” rhodder “a wneir o dan adran 137 neu 139 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(i)”;
 - (ii) ym mharagraff 3, yn lle “adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990” rhodder

(1) O.S. 2004/2732 (Cy. 239), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

“adran 137 neu 139 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;

- (iii) ym mharagraff 4, yn lle “O dan adran 50 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990” rhodder “O dan adran 141 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;
- (iv) ym mharagraff 5, yn lle “Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990” rhodder “Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;
- (v) yn y Nodiadau ar ôl paragraff 5, yn nhroednodyn (l)—
 - (aa) yn lle “adran 50(3) o’r Ddeddf Adeiladau Rhestredig” rhodder “adran 140(3) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;
 - (bb) yn lle “adran 50(4) a (5)” rhodder “adran 140(2) a (4) o’r Ddeddf honno”.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebiadau Electronig) (Cymru) (Rhif 1) 2004

30. Yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebiadau Electronig) (Cymru) (Rhif 1) 2004(1)—

- (a) yn erthygl 2, hepgorer y diffiniad o “the Listed Buildings Act”;
- (b) hepgorer erthyglau 7 i 9.

Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006

31. Mae Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

32. Yn rheoliad 1, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae’r Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy’n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.”

33. Yn rheoliad 2(1)—

- (a) mewnosoder yn y lle priodol “ystyr “Deddf 2023” (“*the 2023 Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023;”;

(1) O.S. 2004/3156 (Cy. 273), y mae diwygiad iddo nad yw’n berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2006/1387 (Cy. 137), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

- (b) yn y diffiniad o “cynrychiolydd penodedig”, yn lle is-baragraff (b) rhodder—
“(b) adran 178(4) neu (5) o Ddeddf 2023;”;
- (c) yn y diffiniad o “cyfarwyddyd”, yn lle is-baragraff (b) rhodder—
“(b) adran 178(2) a (3) o Ddeddf 2023;”;
- (d) hepgorer y diffiniad o “y Ddeddf Adeiladau Rhestredig”.

34. Yn rheoliad 3—

- (a) yn lle paragraff (1)(b) rhodder—
“(b) adran 178(2) a (3) o Ddeddf 2023;”;
- (b) yn lle paragraff (3)(b) rhodder—
“(b) adran 178(4) o Ddeddf 2023;”.

35. Yn lle rheoliad 4(2)(a)(ii) rhodder—

“(ii) adran 178(5) o Ddeddf 2023;”.

Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006

36. Mae Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

37. Yn Rheol 12(8)(e)(x), ar ôl “1979” mewnosoder “or the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

38. Yn Atodlen 5—

- (a) yng ngholofn gyntaf paragraff 14 o’r tabl—
 - (i) ym mharagraff (i), ar ôl “1990” mewnosoder “or Part 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
 - (ii) ym mharagraff (ii), ar ôl “1979” mewnosoder “or a monument scheduled under Part 2 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (b) yng ngholofn gyntaf paragraff 15 o’r tabl, ym mharagraff (i), ar ôl “1990” mewnosoder “or Part 4 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (c) yn ail golofn paragraff 15 o’r tabl—
 - (i) hepgorer “and (ii)”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—
“15 (ii) The Historic Buildings and Monuments Commission for England.”

(1) O.S. 2006/1466, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd) 2006

39. Mae Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd) 2006(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

40. Ym mharagraff 16(6) o Atodlen 1, ar ôl “1979” mewnosoder “or the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

41. Ym mharagraff 21(6) o Atodlen 2, ar ôl “1979” mewnosoder “or the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

42. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(2), yn Rhan A—

- (a) ym mharagraff 20, yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adrannau 96(1) a (2) a 97(1) i (8) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3) a pharagraffau (1), (2) a (3) o Atodlen 9 iddi.”;
- (b) ym mharagraff 21, yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adrannau 96(1) a 97(1) i (4) a (7) ac (8) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 fel y'u cymhwysir gan adran 163 o'r Ddeddf honno.”;
- (c) ym mharagraff 22, yn yr ail golofn, yn lle “Adran 13(1)” hyd at “1990”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “Adran 95(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;
- (d) ym mharagraff 23—
 - (i) yn y golofn gyntaf, yn lle “hysbysiad cadw adeilad” rhodder “hysbysiad rhestru dros dro”;
 - (ii) yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adrannau 83(1) a (2) ac 84(1) a (2) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.”;
- (e) ym mharagraff 24—
 - (i) yn y golofn gyntaf, hepgorer “adeilad rhestredig”;
 - (ii) yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf yr

(1) O.S. 2006/1954, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2007/399 (Cy. 45), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.”;

- (f) ym mharagraff 25, yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adrannau 137 i 139 a 111(5) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.”;
- (g) ym mharagraff 26, yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adran 135 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.”;
- (h) ym mharagraff 27, yn lle'r testun yn yr ail golofn rhodder “Adran 144(1) a (3) i (7) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.”

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008

43. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008(1)—

- (a) yn lle paragraff (d) rhodder—
 - “(d) sy'n destun hysbysiad rhestru dros dro o dan adran 83 neu 84 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 neu a gynhwysir yn y rhestr a gynhelir o dan adran 76(1) o'r Ddeddf honno;”;
- (b) ym mharagraff (dd), yn lle “adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979” rhodder “adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”.

Rheoliadau Gorfodi REACH 2008

44. Yn Atodlen 5 i Reoliadau Gorfodi REACH 2008(2), yn Rhan 1, paragraff 8—

- (a) yn y diffiniad o “historic building”—
 - (i) yn is-baragraff (e), hepgorer “and Wales”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—
 - “(ea) in relation to Wales, a listed building within the meaning of section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023 which is classified as Grade I or Grade II (starred);”;
- (b) yn y diffiniad o “scheduled monument”—
 - (i) yn is-baragraff (h), hepgorer “, Wales”;
 - (ii) ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

(1) O.S. 2008/2499 (Cy. 217), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2008/2852, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

“(ha) in Wales, as it has in section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023;”.

Rheoliadau Llinellau Uwchben (Eemptio) (Cymru a Lloegr) 2009

45. Yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Llinellau Uwchben (Eemptio) (Cymru a Lloegr) 2009(1)—

- (a) yn y diffiniad o “conservation area” a “listed building”—
 - (i) ar ôl “meanings” mewnosoder “in relation to areas and buildings in England”;
 - (ii) ar ôl “1990” mewnosoder “and in relation to areas and buildings in Wales, have the meanings in section 210 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (b) yn y diffiniad o “scheduled monument”—
 - (i) ar ôl “meaning” mewnosoder “in relation to monuments in England”;
 - (ii) ar ôl “1979” mewnosoder “and in relation to monuments in Wales, has the meaning in section 3(7) of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Treth Gorfforaeth (Rhyddhad Adfer Tir) 2009

46. Yn y tabl yn erthygl 5 o Orchymyn Treth Gorfforaeth (Rhyddhad Adfer Tir) 2009(2), ar ôl y cofnod ar gyfer “Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990” mewnosoder—

“Historic Environment (Wales) Act 2023	section 138	requirement to serve repairs notice before starting compulsory acquisition”.
--	-------------	--

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009

47. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau)

(1) O.S. 2009/640, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 (2) O.S. 2009/2037, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(Cymru) 2009(1), yn is-baragraff (dd) o'r diffiniad o "ardal sensitif", yn lle "yn Neddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979" rhodder "yn adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023".

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010

48. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010(2)—

- (a) yn y diffiniad o "conservation area"—
 - (i) yn lle "and in Scotland" rhodder "in Scotland";
 - (ii) ar ôl "1997" mewnosoder "and in Wales under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023";
- (b) yn y diffiniad o "listed building"—
 - (i) yn lle "and in Scotland" rhodder "in Scotland";
 - (ii) ar ôl "1997" mewnosoder "and in Wales under section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023";
- (c) yn y diffiniad o "scheduled monument", ar ôl "1979" mewnosoder "and in Wales under section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

Rheoliadau Adeiladu 2010

49. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

50. Yn rheoliad 21, ym mharagraff (3)(a)—

- (a) ym mharagraff (i), ar ôl "1990" mewnosoder "or section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023";
- (b) ym mharagraff (ii), yn lle "that Act" rhodder "the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 or section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023";
- (c) ym mharagraff (iii), ar ôl "1979" mewnosoder "or section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

51. Yn rheoliad 37A, ym mharagraff (4)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle "section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation

(1) O. S. 2009/3342, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2010/305, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2010/2214; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/2730 (Cy. 264), O.S. 2018/558 (Cy. 264), O.S. 2019/1499.

Areas) Act 1990” rhodder “section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;

- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “section 69 of that Act” rhodder “section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (c) yn is-baragraff (c), yn lle “section 1 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979” rhodder “section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

52. Yn rheoliad 44B, ym mharagraff (a), i’r graddau y mae’n gymwys i Gymru—

- (a) yn is-baragraff (i), yn lle “section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990” rhodder “section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (b) yn is-baragraff (ii), yn lle “section 69 of that Act” rhodder “section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”;
- (c) yn is-baragraff (iii), yn lle “section 1 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979” rhodder “section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

53. Yn Atodlen 2, Dosbarth 1, paragraff 3, ar ôl “1979” mewnosoder “or under section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011

54. Yn erthygl 31(b) o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011(1), ar ôl “1979” mewnosoder “or a monument entered in the schedule maintained under section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011

55. Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

56. Yn rheoliad 16(2)—

- (a) hepgorer yr “and” ar ôl is-baragraff (e);
- (b) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—
 - “; and
 - (g) the Historic Environment (Wales) Act 2023.”

57. Yn rheoliad 17(1)(b)—

(1) O.S. 2011/409 (Cy. 81), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/893; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2011/988, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

- (a) hepgorer “or” yn y pedwerydd lle y mae’n digwydd;
- (b) ar ôl “the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990” mewnosoder “, or under paragraph 2(5) and (6) of Schedule 9 to the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

58. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

59. Yn erthygl 26(7), yn is-baragraff (b) o’r diffiniad o “apêl deiliad tŷ” ac o’r diffiniad o “apêl fasnachol fach”, yn lle “adran 20” hyd at y diwedd rhodder “adran 100 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad).”

60. Yn erthygl 27(15)(b), yn lle “adran 1” hyd at y diwedd rhodder “adran 76 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau).”

61. Yn Atodlen 4, ar ôl y tabl, o dan y pennawd “Dehongli’r Tabl”, ym mharagraff (h)(i), yn lle “adran 1(11) o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 (rhestr o henebion)” rhodder “adran 3(7) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (cofrestr o henebion)”.

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu’r Weithdrefn) (Cymru) 2014

62. Yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu’r Weithdrefn) (Cymru) 2014(2)—

- (a) hepgorer erthygl 2(2);
- (b) yn Atodlen 1, hepgorer paragraffau 14 i 23.

Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

63. Ym mharagraff 12 o Atodlen 1 i Reoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(3)—

- (a) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 2(3) o Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979”

(1) O.S. 2012/801 (Cy. 110); mae’r diwygiadau perthnasol i’w cael yn O.S. 2015/1330, O.S. 2016/56 ac O.S. 2016/59.
 (2) O.S. 2014/2773 (Cy. 280).
 (3) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

rhodder “adran 13 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023”;

- (b) yn is-baragraff (2), yn y testun Cymraeg, yn lle “caniatâd” rhodder “cydsyniad” yn y ddau le y mae’n digwydd;
- (c) yn lle is-baragraff (4) rhodder—

“(4) Yn y paragraff hwn, mae i “heneb gofrestredig” yr ystyr a roddir iddo yn adran 3(7) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ac mae “cydsyniad heneb gofrestredig” i’w ddehongli yn unol ag adran 13 o’r Ddeddf honno.”

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015

64. Yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015(1), yn lle’r cofnod ar gyfer “Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979” a’r testun yn y golofn gyfatebol rhodder—

<i>“Historic Environment (Wales) Act 2023</i>	A consent under section 12 and Schedule 3 (authorisation of classes of works) A consent under section 13 (authorisation of works by scheduled monument consent)”.
---	--

Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015

65. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015(2), yn is-baragraff (e) o’r diffiniad o “third party consent”—

- (a) hepgorer “or”;
